**Cyfarfod y Grŵp Trawsbleidiol ar Ddigidol yng Nghymru – 30/3/2022**

Cofnodion cyfarfod aelodau'r Grŵp Trawsbleidiol ar Ddigidol yng Nghymru, a gynhaliwyd drwy Zoom am 12:00 ar 30/3/22

| | | |
|---|---|---|
| Yn bresennol: | RhaI | Rhun ap Iorwerth (Cadeirydd – AS dros Ynys Môn) |
| | PaRh | Pryderi ap Rhisiart (Ysgrifenyddiaeth – Parc Gwyddoniaeth Menai) |
| | HR | Heledd Roberts (Swyddfa Rhun ap Iorwerth AS) |
| | CQ | Cari-Anne Quinn (Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru) |
| | CE | Carwyn Edwards (Parc Gwyddoniaeth Menai) |
| | CF | Cath Fallon (Cyngor Sir Fynwy) |
| | CL | Chris Laity (Prifysgolion Cymru) |
| | DJ | David Jones (Cyfarwyddwr Anweithredol Ofcom, Ofwat a Chymwysterau Cymru) |
| | DW | David Wells (Fusion Digital Health) |
| | DR | Daniel Rees (Prifysgol Abertawe) |
| | DH | David Hunnisett (Rheolwr Technegol yn Scienap) |
| | GD | Gareth Davies (Agor IP) |
| | GG | Graham Guilford (Prifysgol Bangor) |
| | HL | Hamish Laing (Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru) |
| | HT | Helen Thomas (Iechyd a Gofal Digidol Cymru) |
| | HE | Henrietta Eyre (Fusion Digital Health) |
| | JI | James Ingram (Scienap) |
| | JL | Jocelle Lovell (Cymunedau Digidol Cymru) |
| | LG | Lynne Grundy (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) |
| | MLJ | Marie Latham-Jones (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr) |
| | PW | Peter Williams (Llywodraeth Cymru) |
| | PMJ | Philippa Morgan-Jones (Scienap) |
| | SC | Sion Charles (Fforwm Arloesi ARCH) |
| | ER | Emily Roberts (M-SParc) |

| **Eitem ar yr agenda** | **Cam gweithredu** |
|---|---|
| **Croeso a chyflwyniad i'r grŵp**<br><br>Sefydlwyd y grŵp hwn i edrych ar faterion digidol yn yr ystyr ehangach. Rydym wedi edrych ar faterion digidol ym meysydd amaethyddiaeth a sgiliau, a heddiw rydym yn trafod iechyd a gofal - sut allwn ni fanteisio ar yr hyn y gall technoleg ddigidol ei gynnig i ni wrth ddarparu gwasanaethau iechyd a gofal yng Nghymru?<br><br>Ymddiheuriadau – Natasha Ashgar AS a Carolyn Thomas AS. | |
| **Helen Thomas, Prif Swyddog Gweithredol Iechyd a Gofal Digidol Cymru**<br><br>Sefydliad Digidol Cenedlaethol sy'n rhan o GIG Cymru. Rôl y sefydliad yw 'trawsnewid iechyd a gofal i bawb drwy ddarparu gwasanaethau digidol sy'n arwain y byd'. Rhoddodd Helen drosolwg o'r ffordd y mae'r grŵp yn bwriadu galluogi trawsnewid digidol, gan ddarparu'r saernïaeth ddata genedlaethol y gall eraill ei defnyddio i wella ac arloesi.<br><br>Mae ehangu data yn faes allweddol o ran helpu i rannu gwybodaeth ar draws sectorau. Mae IGDC yn gweithredu ar draws y GIG a gofal cymdeithasol yng Nghymru, a'i nod yw gwneud | |

| | |
|---|---|
| hyn gan ddarparu gwasanaeth o'r radd flaenaf a bodloni gofynion y gwasanaeth iechyd.  Yn y pen draw, y nod yw cefnogi gwerth y data a gynhyrchir ar draws y system gofal iechyd.<br><br>Amlinellwyd y sefydliadau a'r rhaglenni sy'n cefnogi gwaith IGDC, gan gynnwys ap ffonau symudol y GIG, a fydd yn y pen draw yn helpu cleifion i gael mynediad at ddata. Y gweithlu talentog, perfformiad uchel sy'n llywio'r gwaith yn y pen draw, ac mae'r gwaith o ragweld pa sgiliau a disgyblaethau sydd eu hangen arnom yn cael ei wneud ar hyn o bryd. | |
| **Siôn Charles, ARCH, yn trafod Hac Iechyd Cymru**<br><br>Rhoddwyd amlinelliad o ddigwyddiad Hac Iechyd Cymru, a gynhaliwyd mewn cydweithrediad â sefydliadau ledled Cymru, gan gynnwys M-SParc a Llywodraeth Cymru. Caiff yr Hac ei gynnal i gefnogi arloesedd mewn gofal iechyd. Mae'n rhaid arloesi i symud systemau yn eu blaenau; mae'r Hac yn ffordd o ddatrys heriau gweithredol o ran y dechnoleg bresennol. Mae'n caniatáu i'r risgiau a'r gwobrau gael eu rhannu, gan fod cyllid yn cael ei ddarparu i ddwyn y syniadau buddugol yn eu blaenau. Mae'n cynnig cyfle i'r diwydiant weithio gyda'r GIG, ac mae perthnasoedd newydd yn aml yn cael eu ffurfio hyd yn oed o fewn y timau sydd ddim yn mynd ymlaen i ennill cyllid.<br><br>Nodwyd bod yr Hac yn arfer digwydd wyneb yn wyneb, ond ei fod bellach yn cael ei gynnal ar-lein ac yn gweithio'n dda ledled Cymru ar y ffurf hon. Rhannwyd fformat yr Hac gyda'r grŵp, o'r cam cyntaf o gyflwyno'r her hyd at y cam o ennill cyllid a chefnogaeth. Mae'r cyllid yn galluogi'r enillwyr i lunio prototeip a gweld a yw'r datrysiad yn ymarferol, cyn gweithredu ar raddfa lawn. Mae gwerthusiad cynhwysfawr o'r 9 Hac diwethaf ar y gweill, a bydd data ar lwyddiant yr Haciau blaenorol hyn ar gael o'r canlyniadau.<br><br>Mae Hac gofal cymdeithasol yn cael ei gynnal ar 8 a 23 Mehefin! Cofiwch nodi'r dyddiadau hyn yn eich dyddiaduron; bydd rhagor o wybodaeth ar gael maes o law. | |
| Dave Wells a Henrietta Eyre, Fusion Digital Health<br><br>Mae Fusion Digital Health yn gwmni gwybodeg iechyd, a'i nod yw datrys heriau cymhleth o fewn gofal iechyd, gwella canlyniadau iechyd a datblygu gwyddoniaeth feddygol. Mae'r cwmni'n gweithio gyda grwpiau gofal iechyd, elusennau a diwydiant i ddatrys materion ledled y byd.<br><br>Mae profiad dwfn ar draws y gwasanaethau iechyd cenedlaethol ym mhedair gwlad y Deyrnas Unedig, yn ogystal â gofal iechyd ledled y byd, yn hanfodol i waith Fusion Digital Health. Mae gwaith y cwmni ar wybodeg iechyd yn edrych ar ddatrysiadau sy'n cynnwys rheolaeth glinigol, a meysydd ffocws sy'n cynnwys iechyd ataliol.<br><br>Rhannwyd manylion prosiect Sgiliau Maeth am Oes - cysylltiad a wnaed drwy Hac Iechyd Cymru! Roedd modd digideiddio pob lefel o'r rhaglen yn llawn, gan gynnwys adnoddau, gemau a fideos. Cafodd y prosiect Adsefydlu Cardiaidd, ar gyfer cysylltu pob aelod o'r tîm adsefydlu cardiaidd yn llawn, ei ysbrydoli gan yr Hac hefyd, a bydd yn caniatáu i Fusion Digital feithrin partneriaethau ag apiau penodol, gan gynnwys Strava, i fonitro gweithgarwch a defnyddio data i gefnogi effeithiolrwydd ymyraethau.<br><br>Mae'r Clinig Ffordd o Fyw yn canolbwyntio ar iechyd mewn perthynas â diabetes, a bydd yn mynd i'r afael ag angen nas diwallwyd drwy ddarparu datrysiad i helpu pobl ledled y byd. Yn olaf, mae Platfform y Gofrestrfa yn canolbwyntio ar ddata i gefnogi America Ladin gyda | |

| | |
|---|---|
| menter sgrinio ar gyfer canser yr ysgyfaint. Mae gwybodaeth iechyd ar gyfer gwneud diagnosis o ganser yn fater y mae'r tîm yn teimlo'n angerddol yn ei gylch, a bydd y wybodaeth hon yn cael ei rhannu â chwmnïau eraill ledled y byd, gan ddefnyddio dull a ddefnyddiwyd yn wreiddiol yng Nghymru. | |
| **Agor y drafodaeth**<br><br>CE – Mae cwmnïau'n wynebu risgiau a gall fod yn her cael mynediad at y maes; a all unrhyw gwmnïau ar yr alwad drafod eu profiadau yn y cyd-destun hwn neu roi gwybod beth fyddai'n eu cefnogi i fynd i mewn i'r maes hwn, ac eithrio, wrth gwrs, yr Haciau rydym wedi clywed amdanynt?<br><br>HE – Byddai ehangu cylch gwaith yr Hac Iechyd yn beth da i'n galluogi i ymchwilio ychydig yn fwy i'r heriau y mae'r GIG yn eu hwynebu. Gorau po fwyaf yw'r darlun rydym yn ei gael o'r heriau hyn. Mae cydweithio yn allweddol.<br><br>DW – Mae'n gyd-ddigwyddiad ein bod wedi cwrdd â phobl drwy'r Hac, ond dylai fod ffordd well o gwrdd â phobl a rhannu syniadau, cyn gweld pwy sydd eisiau cyfrannu at ein gwaith.<br><br>RhaI – Mae angen mwy o rwydweithiau arnom; mae gennym yr Hwb Gwyddorau Bywyd, ond a oes angen mwy o rwydweithiau arnom yng Nghymru?<br><br>DW - Mae angen rhwydwaith tebyg i LinkedIn, bron, fel y gallwn rannu diddordebau a heriau.<br><br>HT – Rydym yn creu'r rhwydwaith hwnnw gyda'r LSH, i ddod ag iechyd a'r byd academaidd ynghyd. Mae'n bwysig trafod pa ddigwyddiadau rydym am eu cynnal a chynnull pobl mewn ystafell: cyn y pandemig roedd hyn yn gweithio'n dda ac rydym yn awyddus i wneud hyn eto ar raddfa fwy.<br><br>CQ – Mae ein cylch gwaith ehangach yn Hwb Gwyddorau Bywyd Cymru yn cynnwys mabwysiadu arloesiadau a sicrhau effaith gadarnhaol ar gleifion. Rhoddir llawer o ddigwyddiadau a mentrau at ei gilydd ac maent yn gweithio'n dda i ysgogi newid, gan weithio i arloesi a sicrhau ein bod yn gwneud gwahaniaeth. Rydym hefyd yn edrych ar yr opsiynau ehangach o ran cyllid i gydweithio a dod â rhai o'r meysydd perthnasol i'r rhanbarth.<br><br>PaRh – A oes y fath beth ag 'amgylchedd blwch tywod (*sandbox*)' lle gall cwmnïau sydd am arloesi gael mynediad at amgylchedd lle gallant ymdrin â data yn ddiogel? A oes rhywbeth ymarferol fel hyn ar gael? Byddai hyn yn galluogi pobl i gael mynediad yn fwy hwylus at wasanaethau digidol yng Nghymru.<br><br>HT – Nid yw'n flwch tywod, fel y cyfryw, ond mae gennym ni lyfrgell o adnoddau sy'n rhoi gwybod sut i ryngweithio a chysylltu â'r system gofal iechyd drwy'r wefan Ecosystem Cymru Ddigidol.<br><br>SC – O ran rhwydweithio, mae hyn yn cysylltu'n ôl â llawer o'r sgyrsiau rydym wedi bod yn eu cael, ac mae cyfleoedd yn bodoli, ond mae mwy o waith i'w wneud i sicrhau bod y cysylltedd hwn yn llwyddo. Mae angen trafod y cydbwysedd sy'n cael ei daro rhwng pwysau allanol a'r galw mewnol hefyd – mae llawer o bwysau o'r tu allan yn gwthio arloesedd ar y GIG, sy'n aml yn galw am newid prosesau ac ati. Mae'n rhaid i'r GIG dynnu arloesedd i mewn. Mae labordy patholeg newydd yn cael ei ddatblygu, ac mae angen i'r labordy hwn weithredu'n | |

llwyddiannus, felly mae cyfleoedd i dynnu cwmnïau i mewn i'r sgwrs. Mae'n dda gweld brwdfrydedd gan unigolion a grwpiau eraill i ddilyn y model hwn.

DJ – Mae’r drafodaeth am faterion digidol a thechnoleg yn cynnwys cynnyrch a chaffael, yn hytrach na’r effaith ar gleifion a newid prosesau.

RhaI – Beth am ragnodi electronig, lle mae'r galw yno ond nid oes mewnbwn gan gyrff allanol?

HT – Trawsnewid digidol sy’n berthnasol yma, yn hytrach nag arloesi, ond mae’n rhaid i ni wneud yn siŵr y gallwn sicrhau llwyddiant yn y maes hwn. Mae buddsoddi i drawsnewid yn hanfodol.

RhaI – Gwahoddodd y rhai a oedd yn bresennol o fyd addysg i ddweud ychydig eiriau am sgiliau, a gofynnodd i’r cwmnïau sydd wedi’u cynrychioli heddiw i drafod sgiliau hefyd.

JI – Yr hyn sy’n bwysig yw sicrhau llawer mwy o ddiddordeb mewn arloesi; mae angen cymorth ym mhob maes. Mae’n rhaid cael pobl sy'n deall yr ochr fasnachol wrth drafod cyllid. Mae hyn yn cynnwys dealltwriaeth o’r broses gaffael a GDPR. Mae'r sefyllfa yn dechrau gwella ond mae ffordd i fynd.

HT - Yr her fwyaf sy’n ein hwynebu yw’r llwybr o’r pwynt ar ôl cael syniad da a’r pwynt lle mae’r syniad hwnnw’n cael ei weithredu, ac mae hyn yn dibynnu ar y broses gaffael. Sut ydym yn datblygu’r llwybr i alluogi hyn i ddigwydd heb i’r broses fod yn gymaint o her?

GD – Weithiau, rydym yn gweld digidol fel mater ar wahân, felly mae’n rhaid i ni edrych ar y broses gymhwyso. Digidol yw'r norm erbyn hyn, ac mae'r trawsnewid bron wedi digwydd, felly mae angen inni edrych ar y patrwm hwn. Daw’r gwerth o droi’r digidol yn arloesedd, nid dim ond drwy feddu ar sgiliau digidol cryf.

DJ – Bydd myfyrwyr graddedig sydd newydd adael y brifysgol yn gweld yr atyniad o weithio o fewn y GIG, ond ymhen ychydig flynyddoedd mae’n bosibl y bydd y bobl ifanc hynny i gyd wedi symud i swyddi gwahanol, o gofio bod chwilfrydedd a rolau newidiol yn gyffredin mewn meysydd digidol.

RhaI – Mae denu pobl i gyrsiau digidol wedi bod yn anodd i golegau lleol.

HT – Mae denu merched i gyrsiau gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg yn bwysig hefyd, ac mae cyflwyno modelau rôl i ddangos bod yna yrfaoedd gwych yn y meysydd hyn yn rhan bwysig o’r gwaith hwn. Mae 5 mlynedd i weithredu rhaglen ragnodi yn amser hir i aros, a’r gobaith yw ein bod yn gweithio ar wneud cynnydd ar yr agwedd hon hefyd.

| | |
|---|---|
| Sylwadau i gloi<br><br>RhaI – Diolch i bawb am eu mewnbwn a'u sylwadau, a diolch i'r tîm yn fy swyddfa ac yn M-SParc am drefnu'r cyfarfod. Rydym wedi clywed y negeseuon gan bobl allweddol yma heddiw, ac rydym yn ddiolchgar am y mewnbynnau hynny. Bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu â'r wasg am y cyfarfod hwn heddiw, gyda'r nod o gadw'r ffocws ar y maes hwn wrth symud ymlaen, sef diben y grŵp a'i waith. | |